# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

*Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams*

Eich Cyf/Your Ref: | Ein Cyf/Our Ref: | Dyddiad/Date: 9 Chwefror 2015

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 16 CHWEFROR 2015** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Dafydd Williams*

Dafydd Williams
**Clerc y Dref**

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**
   Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. **Y GWIR ANRHYDEDDUS DAVID JONES, A.S.**
   I dderbyn cyflwyniad gan Y Gwir Anrhydeddus David Jones, A.S.

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
   I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2015.

7. **MATERION YN CODI**

8. **PWYLLGOR AMWYNDERAU**
   I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015.

9. **PWYLLGOR CYNLLUNIO**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015.

10. **MARCHNATA ARDAL RHUTHUN**
(a) i nodi derbyn y swm o **£15,150.00** gan Gyngor Sir Ddinbych sef arian o'r Cynllun Ardal – bydd y swm yma yn cael ei ddangos o dan y pennawd uchod ar Daflenni Ariannol o 1af Ebrill 2015 ymlaen.
(b) i gadarnhau newid teitl ar Daflenni Ariannol o 1af Ebrill fel a ganlyn:
'Cydlynydd y Dref' i' Marchnata Tref Rhuthun'.

11. **BYRDDAU LLWYBRAU TREF RHUTHUN**
I dderbyn ac ystyried llythyr gan Gyngor Sir Ddinbych sydd yn dymuno uwchraddio'r byrddau presennol wedi eu lleoli ym Maes Parcio Cae Ddol a Maes Parcio Stryd y Farchnad (copi llythyr a llun).

12. **DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL – GRYM I BOBL LEOL**
I dderbyn ac ystyried Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru ac i gyflwyno sylwadau erbyn Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015 (crynodeb yn amgaeedig – copi gwyn). Gellir gweld y ddogfen lawn ar:
http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?skip=1&lang=cy

13. **GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (WERN FECHAN, RHUTHUN, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD AROS) 201-**
I dderbyn manylion am y Gorchymyn uchod (anfonwyd i aelodau drwy e-bost Dydd Llun, 9 Chwefror 2015).

14. **ASESIAD RISG BLYNYDDOL**
I dderbyn ac ystyried yr Asesiad Risg Blynyddol (copi glas).

15. **STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL**
I dderbyn a chadarnhau'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol (copi pinc).

16. **IS-GAPTEN PHILIP HEBDON LECOMBER (LLADDWYD MEWN BRWYDR MAWRTH 1918)**
I dderbyn manylion am wasanaeth coffaol i'w gynnal am 1:00 p.m. ar ddydd Gwener, 27ain Mawrth 2015 yn Nantclwyd y Dre.

17. **DATGANIAD ARIANNOL**
I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31ain Ionawr 2015. (copi gwyrdd).

18. **CYFRIFON I'W TALU**
Cymeradwywyd yr eitem ganlynol yn y cyfarfodydd Pwyllgorau a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 690 | Coya Marketing Ltd | | | 2,925.00 |
| | I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol: | | | |
| D.D. | B.T. | Gwasanaeth band llydan | * | 65.76 |
| 691 | Sandra Williams | Cyfieithu | * | 90.00 |
| 692 | Cyllid y Wlad | Treth ac Yswiriant Gwladol | | 163.20 |
| 693 | Cyngor Sir Ddinbych | Cinio Elusennol y Cadeirydd yn Llanelwy - Tocynnau x 2 | | 60.00 |

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £25.96 )

19. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
I gadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 23 Mawrth 2015.